

Adran Gweinidogaethau

Cyfnod Sabothol / Astudio

Cyd-destun

Cymeradwyodd yr Adran Gweinidogaethau, yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr, benderfyniad gan ei Bwyllgor Gwaith i ystyried y gwahaniaeth rhwng Cyfnod Sabothol a Chyfnod Astudio. Mae hyn yn dilyn gohebiaeth gan yr Adran Ymgeiswyr ac Hyfforddiant, sy'n nodi eu dealltwriaeth o amodau presennol 'Cyfnod Sabothol'.

Barn yr Adran Gweinidogaethau oedd bod y cynllun presennol, a'r papur diweddar gan y Cyfarwyddwr Academaidd yn cyd-fynd yn dda â'r unigolion hynny a oedd yn dymuno gwneud cais am gyfnod o absenoldeb er mwyn dilyn astudiaeth bellach. Fodd bynnag, gan ystyried ceisiadau llwyddiannus diweddar, mae'n amlwg bod dealltwriaeth gwahanol o 'Cyfnod Sabothol', dealltwriaeth sy'n hybu'r syniad o orffwys a myfyrio.

Cred yr Adran Gweinidogaethau, gan y dylai seibiant fod yn ofyniad i bawb sy'n ymwneud â gweinidogaeth, y dylai union natur y cyfnod hwnnw fod â mwy o hyblygrwydd na'r hyn a roddir gan y Rheolau, a chan y papur diweddar gan yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant. Er mwyn trafod hyn, rwy'n amgau cynnwys papur yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant, yn ogystal ag awgrym i'n helpu i drafod.

Cyfnod Sabothol

Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant

Egwyddorion PCW a Diffiniad o Gyfnod Sabothol

Mae pwyslais cyfnod sabothol ar alluogi Gweinidogion / gweithwyr gweinidogaethau i geisio adnewyddiad ysbrydol personol a hefyd i fanteisio ar yr amser i fyfyrion ar gwmpas ei (g)weinidogaeth. Tra'n cydnabod y gallai hyn gynnwys gwella gwybodaeth a sgiliau mewn maes penodol, nod y Cyfnod Sabothol yw galluogi Gweinidogion / gweithwyr gweinidogaethau i ailffocysu ar eu galwad fel Gweinidogion / gweithwyr gweinidogaethau.

Mae gan Weinidogion / gweithwyr gweinidogaethau hawl i gyfnod o 6 wythnos o Gyfnod Sabothol ar ôl pob 7 mlynedd o Wasanaeth.

Argymhellir bod pob Gweinidog / gweithiwr gweinidogaethau yn cymryd cyfnod sabothol cymeradwy, o 6 wythnos, cyn diwedd eu degfed flwyddyn yn dilyn ordeiniad / gwasanaeth.

Mae grant o hyd at £ 1500 ar gael ar gyfer treuliau a ddigwyddodd yn ystod y Cyfnod Sabothol.

Dylai'r ymgeisydd gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Adran Hyfforddiant mewn perthynas â'r Cyfnod Sabothol heb fod yn hwyrach na 6 wythnos ar ôl y cyfnod sabothol. Gallai'r adroddiad hwn fod ar ffurf crynodeb o'r cyfnod neu gyfnodolyn.

Wrth wneud cais am Gyfnod Sabothol, dylai'r ymgeisydd, ynghyd â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Ofalaeth a'r Adran Hyfforddi, ystyried:

- *Y diffiniad o Absenoldeb Sabothol, fel yr amlinellwyd uchod.*
- *O ran cyrsiau academaidd, dylai'r cwrs fod yn un o wella gweinidogaeth yr ymgeisydd yn uniongyrchol.*
- *Os yw'r cyfnod yn cynnwys ymweliadau tramor, dylai'r ymweliad, yn unol â'r diffiniad uchod, gyfoethogi gweinidogaeth a gwaith y Gweinidog / Gweithiwr.*

Llawlyfr Trefn

4.16 Cynllun Cyfnod Sabothol

Bydd y Gronfa yn talu cost llety a phrydau bwyd Gweinidogion amser llawn a rhan amser yn ystod eu cyfnod Sabothol. Ceir manylion pellach gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol. (Diwygiwyd hyn i gynnwys pawb sy'n ymwneud â gweinidogaeth yn yr Eglwys.)

Y broses:

Ar hyn o bryd, mae pob cais am Gyfnod Sabothol yn cael ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ac yn cael eu cyfeirio at yr Adran Gweinidogaethau i'w cymeradwyo'n gyntaf. Fel y gwelir o'r cynnig, mae'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant yn dymuno egluro'r weithdrefn hon, a chyfarwyddo pob cais o'r fath i'r Adran honno. Fel y gwelir, mae hyn yn llifo o ddealltwriaeth o'r Cyfnod Sabothol fel cyfle i 'fyfyrion... galluogi... ailffocysu...' ac '... i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Adran Hyfforddiant ...'. Barn yr Adran Gweinidogaethau oedd, er bod cytundeb â'r awydd i roi amser i 'fyfyrion... galluogi... ail-ffocysu...', eto mae naws y cynnig, yn ogystal â'r awgrym y dylai hyn gael ei gymeradwyo gan yr Adran Hyfforddiant yn rhoi yr argraff o 'gyfnod astudio' yn hytrach na 'cyfnod sabothol'.

Dau Opsiwn, Un Cynllun

Er mwyn hwyluso cyfle ehangach, a chanllawiau pendant ar y mater hwn, cynigiodd yr Adran Gweinidogaethau y dylai'r cynllun presennol ganiatáu, fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd, dau opsiwn posibl ar gyfer y rhai sydd wedi eu cael i weinidogaeth yn ein Heglwys.

Cyfnod Sabothol

Mae un awdur yn disgrifio cyfnod sabothol fel “cyfnod o amser wedi'i gynllunio'n ofalus lle rhoddir caniatâd i'r unigolyn adael ei ch/gyfrifoldebau arferol er mwyn treulio cyfnod estynedig mewn gorffwys, adnewyddiad ac atgyfnerthinad.” Y bwriad mewn toriad o'r weinidogaeth yw i ddarparu gorffwys corfforol, adnewyddiad ysbrydol, ac atgyfnerthiad gyffredinol. Yng ngeiriau hyfforddwr sabothol, “mae cyfnod sabothol yn fuddsoddiad mewn adnewyddiad unigolyn.”

Daw'r gair “sabothol” o'r gair Hebraeg shabbat, sy'n golygu “dod i ben neu orffwys.” Yn yr Ysgrifurau, gwelir Saboth ar ôl y chwe diwrnod o greu (Gen. 2: 3), wedi'i gorffori fel diwrnod gorffwys wythnosol ac addoliad (Ecs. 20: 8), a'i ragnodi fel blwyddyn o ryddhau a maddeuant dyledion ar ôl saith mlynedd (Deut. 15). Cadarnhaodd Iesu bwysigrwydd gorffwys gan ddweud, “Gwnaed y Saboth ar gyfer dyn, nid dyn ar gyfer y Saboth. Felly mae Mab y Dyn yn Arglwydd hyd yn oed ar y Saboth”. (Marc 2:27-28) Mae'r enghraifft Feiblaidd yn aml o Iesu'n tynnu nôl i le tawel i fyfyrion, gweddio a chael ei adnewyddu yn fodel i bawb sy'n ymwneud â'r weinidogaeth. Yng ngweinidogaeth Iesu, arweiniodd gofynion cyson pobl ato i gamu i ffwrdd yn rheolaidd.

Er mwyn gwireddu hyn, dylid darparu cyfle i'r rhai sy'n ymwneud â gweinidogaeth yn ein Heglwys, ochr yn ochr ag anogaeth gyson, i sefydlu trefn reolaidd o orffwys Sabothol. Nid yw'r cynllun hwn yn atal cyfnodau o orffwys / adfer o dan ein gweithdrefnau Iechyd Galwedigaethol, nac yn negyddu awdurdod yr Ysgrifennydd Cyffredinol i awdurdodi cyfnodau o absenoldeb os ystyrir hynny'n briodol.

1. Dylai'r rhai sy'n ymwneud â gweinidogaeth lunio eu holl waith gyda'r bwriad o sicrhau patrwm wythnosol o lafur a gorffwys. Dylai blaenoriaid neu reolwyr llinell sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi, a bod unrhyw hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i sefydlu hyn fel ffordd gyfrifol o 'wneud gweinidogaeth'.
2. Dylid neilltuo cyfnod disgwylidig o 6 wythnos bob saith mlynedd ar gyfer cyfnod sabothol estynedig o orffwys, myfyrio ac ailffocysu.
3. Dylai'r Ysgrifennydd Cyffredinol sicrhau bod cyfnodau o'r fath yn cael eu rhoi i'r rhai sy'n ymwneud â gweinidogaeth, a dylai'r Adran Gweinidogaethau eu cymeradwyo, a dylid hysbysu'r gofalaethau / pwyllgorau llywio. Bydd y gymeradwyaeth yn seiliedig ar gyflwyno'r cais gyda'r wybodaeth ganlynol:
 - disgrifiad o'r amserlen sabothol a ddymunir
 - y dyddiadau a ddewiswyd ar gyfer y cyfnod sabothol
 - cyllideb yn amlinellu costau sabothol ar gyfer pethau fel: teithio, encilio, cwnsela ac ati.
4. Bydd cyfle i gyflwyno adlewyrchiad llafar neu ysgrifenedig yn cael ei roi gan yr Adran Gweinidogaethau i'r rhai sydd wedi cymryd cyfnod Sabothol o'r fath.
5. Bydd yr Adran Gweinidogaethau yn ymgynghori â'r Henaduriaethau i sicrhau bod costau gwneud trefniadau amgen ar gyfer pregethu ac ati yn eu lle. Er y byddem yn gobeithio bod digon o adnoddau arweinyddiaeth mewn pobl mewn gofalaethau, bydd yr Adran Gweinidogaethau, ar y cyd â'r Henaduriaeth, yn talu costau 'rhesymol' y weinidogaeth ar y Sul i fyny at £100.

Cyfnod Astudio

Mae pawb sy'n ymwneud â gweinidogaeth wedi ei galw i genhadaeth a gweinidogaeth yn y cyd-destun y maent yn gwasanaethu ynddo. Fe'u gelwir i dyfu yn Nuw eu hunain ac i alluogi'r rhai y maent yn gweinidogaethu iddynt i dyfu yn Nuw. Mae ganddynt gyfrifoldeb i addysgu ac i bregethu'r Efengyl. Mae eu llewyrch, o ran eu lles personol a phroffesiynol, ac o ran canlyniadau gweinidogaethol, yn hanfodol ar gyfer gweithio allan yr alwad hon. Er mwyn sicrhau, felly, ei fod yn cael ei feithrin, dylai'r Eglwys gynnig cyfnodau o Gyfnod Astudio a all ysgogi persbectifau newydd mewn gweinidogaeth ac adnewyddu ymdeimlad o alwedigaeth, iechyd a chyfanrwydd. Yn ystod y cyfnodau hyn, disgwylir i'r unigolyn gamu'n ôl yn llwyr o'i (g)weinidogaeth neu ei rôl arferol.

Fel arfer bydd hwn yn brosiect sy'n archwilio pwnc i roi adnoddau i weinidogaeth yr unigolyn. Er enghraifft, gallai fod o natur fwy diwinyddol - agwedd ar hanes neu athrawiaeth yr eglwys a'i pherthnasedd heddiw, neu o natur fwy ymarferol, cymhwysol fel pregethu, datblygu ffydd, trawsnewid gwrthdaro eglwysig, neu reoli newid. Gallai fod yn astudiaeth o thema Feiblaidd, neu edrych ar agwedd o genhadaeth fel gweinidogaeth wledig, gweinidogaeth gyda phobl ifanc, caplaniaeth, gweinidogaeth arloesol. Gallai gynnwys mynd ar gwrs, darllen diwinyddol,

ysgrifennu a myfyrio, ymweliadau â lleoedd perthnasol a sgysiau gydag ymarferwyr. Disgwylir y bydd y Cyfarwyddwr Academaidd yn goruchwyllo pob cyfnod astudio, a bydd yn annog yr unigolyn i feddwl a myfyrio ar ei (d)dysgu, yn argymhell darllen os yw'n briodol, ac yn ei ch/gefnogi a'i ddal i'r hyn y cytunwyd arno i'w wneud yn ystod y cyfnod.

Er mwyn gwireddu hyn, dylai'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant gael cyfle i alluogi'r rhai sy'n ymwneud â gweinidogaeth ein Heglwys i gymryd 'Cyfnod Astudio'.

1. Dylai'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant ddarparu cyfle i'r rhai sy'n ymwneud â gweinidogaeth yn ein Heglwys, i gymryd cyfnod o bythefnos o Gyfnod Astudio unwaith bob dwy flynedd, ac i gymryd cyfnod estynedig o dri mis o gyfnod astudio bob deng mlynedd.
2. Ni chaniateir i unigolion gymryd pythefnos o Cyfnod Astudio o fewn 18 mis i'r Cyfnod Sabothol, ac ni chaniateir iddynt gymryd 3 mis o Gyfnod Astudio o fewn 3 blynedd i'r Cyfnod Sabothol.
3. Dylid cyfeirio ceisiadau am Gyfnod Astudio at Ysgrifennydd yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant ar gyfer cymeradwyaeth yr Adran. Dylai'r Adran hysbysu'r Adran Gweinidogaethau er mwyn sicrhau bod gofalaethau / rheolwyr llinell yn ymwybodol o geisiadau.
4. Ni ddylid cyflwyno cais tan ar ôl ymgynghoriad a fframwaith astudio cytunedig gyda'r Cyfarwyddwr Academaidd. Bydd hyn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
 - disgrifiad o'r nodau y Cyfnod Astudio a ddymunir
 - y dyddiadau a ddewiswyd ar gyfer y Cyfnod Astudio
 - cyllideb yn amlinellu costau ar gyfer pethau fel: teithio, cyrsiau, llyfrau ac ati.
5. Bydd unigolion sy'n cymryd Cyfnod Astudio byr yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Academaidd ar ddiwedd y bythefnos, a bydd unigolion sy'n cymryd Cyfnod Astudio estynedig yn cyflwyno crynodeb byr (500 gair) o ganlyniadau'r Cyfnod Astudio i'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant. Gellir hefyd eu gwahodd i baratoi cyflwyniad / sesiwn hyfforddiant yn seiliedig ar eu hastudiaeth.
6. Dylai'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant dalu goblygiadau ariannol Cyfnod Astudio yn yr un modd ag y maent yn cael eu talu gan yr Adran Gweinidogaethau mewn achos o Gyfnod Sabothol. Mewn achos Cyfnod Astudio byr, dylid cyfyngu'r treuliau i uchafswm o £500, ac mewn achos o Gyfnod Astudio estynedig, dylid cyfyngu'r costau i £2,500.
7. Bydd yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant yn ymgynghori â'r Henaduriaethau i sicrhau bod costau gwneud trefniadau amgen ar gyfer pregethu ac ati yn eu lle. Er y byddem yn gobeithio bod digon o adnoddau arweinyddiaeth mewn pobl mewn gofalaethau, bydd yr Adran Ymgeiswyr ac Hyfforddiant, ar y cyd â'r Henaduriaeth, yn cyfarfod â chostau 'rhesymol' ar gyfer gweinidogaeth y Sul i fyny at £100.